

Cofion

- Cydymdeimlwn â'r rhai hynny o'r ofalaeth sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod y dyddiau diwethaf, gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt heddiw, ac yn ystod y dyddiau i ddod yn eu galar a'u hiraeth am anwyliaid.
- Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith – Robert Roberts (Llanefydd) sydd wedi gorfod mynd yn ôl i Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, Harold Pierce (Llanefydd) sy'n parhau yn Ysbyty Broadgreen, a Heulwen Roberts (Henllan) sydd bellach yn yr Inffirmari. Yr ydym yn eu hamgylchynu oll yn ein gweddïau, gan hyderu y bydd y tri ohonynt yn profi holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt.
- Da deall bod Victor Vaughan (Saron) a Meirion Evans (Henllan) wedi cael mynd adre o'r ysbyty. Mae Trefor Jones (Cefn Meiriadog) hefyd yn gobeithio y bydd yntau wedi cael mynd adre erbyn y penwythnos. Diolchwn am y gofal a gawsant, a chyflwynwn hwythau yn ein gweddïau, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau, ac i adnabod nerth a chwmni'r Arglwydd.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.

SYLWCH: Arian Sasiwn y Chwiorydd

Os ydych yn dymuno cyfrannu tuag at Gasgliad y Chwiorydd, bydd trysorydd y chwiorydd yn eich eglwys yn ddiolchgar iawn o dderbyn eich cyfraniad **erbyn dydd Sul nesaf, Ebrill 8fed**, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg ar gyfer Cristnogion led-led Cymru – plant, ieuencid, teuluoedd, myfyrwyr, pobl sengl a pharau o bob oed! Mwy o fanylion ar y wefan www.llanw.org neu drwy holi Rhodri.
- **Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod ar Ebrill 19eg yn Festri Capel Mawr, Dinbych am 7.30. Y siaradwr fydd Mr Elfyn Pritchard.
- **Sasiwn Genhadol y Chwiorydd** yn cyfarfod yng Nghapel Heol China, Llanidloes, dydd Mercher, Mai 2il.
- **Darlith ar "William Salesbury - ei gyfnod a'i gyfraniad"** yn Llansannan, nos Iau Dyrchafael, sef Mai 17eg am 7.30 gyda Dr Iwan Rhys Edgar, Pwllheli yn darlithio. Croeso cynnes i bawb.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Ebrill 2012

"Hosanna i Fab Dafydd!
Bendigedig yw'r un sy'n dod yn
enw'r Arglwydd." (Math.21:9)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw wrth i ni ddod unwaith eto i ddathlu Sul y Palmwydd ar ddechrau'r Wythnos Fawr. Cyfnod o baratoi yw dyddiau'r Grawys, a dyma ni yn cyrraedd pen y daith, a'r Pasg yn agos. Bu'r paratodau ar gyfer y Pasg hwnnw yn Jerwsalem yn drylwyr iawn! Mae'n debyg na fu erioed y fath baratoi! Mae'r Iesu yn gofyn i'r disgyblion fynd o'i flaen i mewn i Jerwsalem i baratoi'r oruwch-ystafell lle y byddai'n dathlu'r Pasg – fel pob Iddew arall – gyda hwy. Mae'n eu hanfon i hebrwng yr asyn ac yn rhoi manylion yn ei orchymyn sy'n dangos ei fod yn feistr ar bob digwyddiad. Ond fe fu paratodau trylwyr yn nhragwyddoldeb at y Pasg hwn. Cyn rhoddi deddf i'r môr fe drysorwyd gras yn Iesu Grist a'i baratoi ar gyfer y daith hon i Jerwsalem.

Sut ydan ni wedi paratoi at y Pasg hwn? Oes 'na rhywbeth yn wahanol eleni? Rhyw gwestiynau dyfnach, rhyw ddyheadau newydd ynom, rhyw argyhoeddiad oddi wrth Dduw o werth y Pasg i ni?

Mae wedi bod yn bythefnos eithriadol o braf a sych. Gwelsom dân ar y mynydd ac mae amryw o danau wedi bod ar draws y wlad a'r Gwasanaeth Tân yn ein rhybuddio'n gyson. Mae tân yn gwneud gwahaniaeth! Y gallu a'r profiad i reoli tân yw un o brif nodweddion y ddynoliaeth. Mae'n bwysig iawn i ni ond weithiau, byddwn yn colli rheolaeth ac fe fydd tanau yn mynd ar chwal ac yn peryglu dyn ac anifail. Dydi hi ddim yn syndod fod presenoldeb yr Ysbryd Glân yn cael ei ddisgrifio fel effaith tân. Iesu yw'r un sy'n gallu ein bedyddio hefo'r Ysbryd ac â tân. (Mathew 3:11) Fedrwn ni ddim rheoli'r Ysbryd, ond y mae'r Ysbryd yn gallu datguddio Iesu i ni ac y mae hynny fel cael tân yn llosgi ynom, yn llosgi'r niwl i ffwrdd, yn toddi'r galon a'r ewyllys – fel cŵyr o dan y fflam!

Un dyhead a ddylai fod ynom wrth i ni baratoi at y Pasg felly yw'r dyhead am brofiad newydd o'r Ysbryd Glân, oherwydd heb yr Ysbryd, dim ond golwg gwan iawn a gawn ar yr hyn a wnaeth Iesu ar y groes ac yn ei atgyfodiad. Ond o gael yr Ysbryd, fe fydd y cyfan yn dod yn bwysig yn ein golwg – byddwn yn gweld fod y cyfan er ein mwyn ni hyd yn oed, a bod a wnelo bwriadau mawrion Duw â'n bywydau bach ni! Ia, trosom ni yr aeth yr Iesu i'r groes, yn ein lle, er mwyn i ni gael maddeuant llawn, heddych hefo Duw a bywyd newydd o lawenydd tragwyddol!

Roedd y paratoi wedi cymryd lle yn nhragwyddoldeb ac y mae pawb sy'n dod, trwy ras, i greu yn Iesu yn rhan o'r paratodau rhyfeddol yma ar gyfer dwyn ffrwyth aberth Iesu a'i fuddugoliaeth i'r golwg!

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sad - Iau • **New Word Alive** ym Mharc Pontins Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA (Mawrth 31ain – Ebrill 5ed.) Mwy o fanylion ar y wefan: www.newwordalive.org.
- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Myfyrdodau'r Pasg** – Astudiaethau fydd yn ein paratoi ar gyfer y Pasg yng Nghefn Berain ac yng Nghefn Meiriadog am 7.30. Croeso i chi ymuno ble bynnag sy'n gyfleus i chi.
- Mercher • Mae'n fwriad gan rai o'r Ofalaeth i fynd i'r addoliad yn **'New Word Alive'** a gynhelir ym Mharc Pontins Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA am 6.30. Beth am ddod â llond car hefo chi? Neu, os hoffech gyfarfod eraill o'r Ofalaeth yno, dewch i'r fynedfa erbyn 6.00.
- Iau • **Myfyrdodau'r Pasg** – Astudiaethau fydd yn ein paratoi ar gyfer y Pasg ym Mheniel ac yn Llansannan am 7.30. Croeso i chi ymuno ble bynnag sy'n gyfleus i chi.
- Gwener • **Oedfa Gymun i'r Fro ar fore'r Groglith** yn Nantglyn am 10.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro Arbennig** dan ofal ieuencid Llanefydd, gyda Rhodri yn pregethu yng **Nghapel Llanefydd** am 6.00.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Bydd yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00, ac ar derfyn yr oedfa, bydd Rhodri Glyn a Rhys Dafis yn cael eu derbyn i wasanaethu fel diaconiaid yn Eglwys Hiraethog. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â'r oedfa, ond ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Ar derfyn yr oedfa, bydd aelodau Capel Saron yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Sul nesaf Bydd y Parch Gareth Edwards yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener Cynhelir Oedfa'r Groglith yng Nghefn Berain am 7.00 gyda'r Parch Nan Powell Davies yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Teuluol y Pasg yn Llanefydd am 10.00 ac oedfa arbennig i'r Fro dan ofal yr ieuencid yn Llanefydd am 6.00. Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau